Senedd Cymru | Y Gwasanaeth Ymchwil
Welsh Parliament | Research Service

# Llywodraeth Cymru i benodi Gweinidog anabledd pwrpasol o fewn tymor nesaf y Llywodraeth

Y Pwyllgor Deisebau | 16 Gorffennaf 2021
Petitions Committee | 16 July 2021

**Cyfeirnod:** SR21/0189-1

**Rhif y ddeiseb**: P-06-1158

**Teitl y ddeiseb**: Llywodraeth Cymru i benodi Gweinidog anabledd pwrpasol o fewn tymor nesaf y Llywodraeth

**Testun y ddeiseb:**

Gydag un o bob pump o bobl yma yng Nghymru yn byw gydag anabledd yn ôl SYG, ni fu erioed yn bwysicach i Gymru ddod yn genedl wirioneddol gynhwysol i'w holl ddinasyddion. Rydym am i Gymru fod y wlad ddatganoledig gyntaf i gael ei Gweinidog anabledd pwrpasol ei hun. Gyda gweinidog pwrpasol yn canolbwyntio ar anabledd, gallwn gymryd camau brasach tuag at system gyflogaeth decach, creu mwy o gyfleoedd i fyfyrwyr anabl a chynnig mwy o gymorth i bobl â phroblemau iechyd meddwl.

# 1. Cefndir

**Cyhoeddodd** y Prif Weinidog ei Gabinet newydd ar 13 Mai 2021. Ni chafodd Gweinidog anabledd penodol ei benodi. Mae'r cyfrifoldeb dros strategaeth a pholisi ynghylch anabledd wedi'i ysgwyddo gan Jane Hutt AS, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, fel rhan o'i chyfrifoldebau dros gydraddoldeb a hawliau dynol.

Mae gan Lywodraeth yr Alban **Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, Tai a Llywodraeth Leol**, sydd â chyfrifoldebau tebyg i'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol yn Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae gan Lywodraeth yr Alban **Weinidog dros Gydraddoldeb a Phobl Hŷn** hefyd, sydd hefyd ag anabledd yn rhan o'i chylch gwaith.

Mae gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig **Weinidog Gwladol dros Bobl Anabl** o fewn yr Adran Gwaith a Phensiynau. Mae cylch gwaith y Gweinidog hwn yn cynnwys cymorth ar draws y Llywodraeth ar gyfer pobl anabl, strategaeth adrannol ar gyfer pobl anabl, diwygio lwfansau i bobl anabl, a strategaeth waith ac iechyd i bobl anabl o fewn yr Adran Gwaith a Phensiynau a'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Ar hyn o bryd, mae gan Weithrediaeth Gogledd Iwerddon **Adran Gymunedau** sy'n gyfrifol am faterion anabledd.

Mae yna esiamplau o wledydd ledled y byd sydd â Gweinidogion neu Ysgrifenyddion Cabinet sydd â chyfrifoldeb penodol dros faterion anabledd. Er enghraifft, mae gan Lywodraeth Seland Newydd **Swyddfa dros faterion anabledd** a Gweinidog dros faterion anabledd. Mae gan Lywodraeth Iwerddon **Weinidog Gwladol sy'n gyfrifol am faterion anabledd** ar draws dwy adran, sef yr Adran Iechyd a'r Adran Plant, Cydraddoldeb, Anabledd, Integreiddio ac Ieuenctid.

# 2. Camau gweithredu gan Lywodraeth Cymru

Mae gan Lywodraeth Cymru **Fforwm Cydraddoldeb i Bobl Anabl** sy'n cynnwys rhanddeiliaid ac sy'n rhoi cyngor i'r Llywodraeth ar faterion anabledd. Mewn **datganiad** ym mis Rhagfyr 2020, dywedodd Jane Hutt AS, y Dirprwy Brif Weinidog ar y pryd, ei bod wedi cadeirio cyfarfod o'r grŵp hwn ar chwe achlysur ers dechrau'r pandemig.

# 3. Camau gweithredu gan Senedd Cymru

Er bod materion anabledd wedi'u trafod yn rheolaidd yn Senedd Cymru, nid oes unrhyw ddadleuon penodol wedi'u cynnal ynghylch penodi Gweinidog anabledd.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn y gywir ar adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol na fydd y papurau briffio hyn o reidrwydd yn cael eu diweddaru na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.